# CYNGOR SIR CEREDIGION

# POLISI CYFLOGAU 2018/19

## 1. CYFLWYNIAD A PHWRPAS

1.1 O dan Adran 112 Deddf Llywodraeth Leol 1972 mae gan y Cyngor “y pŵer i benodi swyddogion ar delerau ac amodau rhesymol fel y gwêl yr Awdurdod yn addas’. Mae’r datganiad Polisi Cyflogau hwn yn gosod dull y Cyngor o weithredu Polisi Cyflogau yn unol â gofynion Adran 38 (1) Deddf Lleoliaeth 2011 sy’n ei gwneud hi’n ofynnol i Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr lunio a chyhoeddi Datganiad Polisi Cyflogau, gan gynnwys y manylion canlynol:

a) Polisïau’r Awdurdod ar gyfer holl agweddau ac elfennau cydnabyddiaeth ariannol y Prif Swyddogion
b) Y dull sydd ganddo o gyhoeddi a sicrhau mynediad at wybodaeth sy’n ymwneud â phob agwedd ar gydnabyddiaeth ariannol i'r Prif Swyddogion
c) Polisïau’r Awdurdod ar gyfer talu’r gweithwyr sydd ar y cyflogau isaf (gan gynnwys y diffiniad sydd wedi ei fabwysiadu a’r rhesymau drosto)
d) Y berthynas sydd rhwng y gydnabyddiaeth ariannol i Brif Swyddogion ac i weithwyr eraill.

1.2 Mae’r Cyngor yn sefydliad mawr, cymhleth ac mae ganddo gyllideb o filiynau o bunnoedd. Mae ei swyddogaethau’n eang iawn ac mae’n darparu ac/neu’n comisiynu amrywiaeth o wasanaethau hanfodol. Felly, gall y dull cyffredinol o ymdrin â lefelau cyflogau amrywio o’r naill grŵp o weithwyr i’r llall, gan adlewyrchu amgylchiadau neilltuol yn lleol, yn rhanbarthol neu dros Gymru gyfan. Bydd angen bod yn hyblyg hefyd pan fo angen ymateb i amryw o amgylchiadau sy’n newid, p’un ai oes modd eu rhagweld ai peidio.

1.3 Pan fydd y Cyngor llawn wedi’i gymeradwyo, yn unol â’r gofynion deddfwriaethol, bydd y datganiad polisi hwn yn dod i rym ar unwaith, ac fe gaiff ei adolygu’n flynyddol man lleiaf yn unol â’r ddeddfwriaeth berthnasol gyfredol.

## 2. Y FFRAMWAITH DEDDFWRIAETHOL

2.1 Wrth bennu cyflogau a thâl ei holl weithwyr, bydd y Cyngor yn cydymffurfio â’r holl ddeddfwriaeth gyflogaeth berthnasol, gan gynnwys:-.

a) Deddf Cydraddoldeb 2010;
b) Rheoliadau Gwaith Rhan Amser (Atal Triniaeth Llai Ffafriol) 2000;
c) Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010; a, lle bo’n berthnasol
d) TUPE = Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth)

2.2 O ran y gofynion sy’n ymwneud â Chyflog Cyfartal sydd yn y Ddeddf Cydraddoldeb, nod y Cyngor yw sicrhau nad oes dim gwahaniaethu lle mae cyflogau yn y cwestiwn yn ei strwythurau cyflogau, a bod modd cyfiawnhau

unrhyw wahaniaethau rhwng cyflogau'n wrthrychol drwy ddefnyddio trefn Gwerthuso Swyddi, sy'n bodloni'r prawf cydraddoldeb ac sy'n cysylltu cyflogau'n uniongyrchol â gofynion, galwadau a chyfrifoldebau'r swydd.

## 3. CWMPAS Y POLISI CYFLOGAU

3.1 Yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011, mae'n rhaid i Awdurdodau ddatblygu a chyhoeddi Polisi Cyflogaeth sy'n ymwneud â phob agwedd ar y Gydnabyddiaeth Ariannol i Brif Swyddogion (gan gynnwys cytundebau terfynu), ac i'r rhai yn yr Awdurdod sy'n derbyn y cyflogau isaf, gan esbonio ei Bolisi ar y berthynas rhwng y gydnabyddiaeth ariannol i Brif Swyddogion â grwpiau eraill (ac eithrio Athrawon Ysgol oherwydd mae cyflogau'r grŵp hwnnw wedi'u gosod gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac nid ydynt o dan reolaeth yr Awdurdod Lleol).

3.2 Nid oes dim o fewn darpariaethau Deddf Lleoliaeth 2011 yn amharu ar annibyniaeth y Cyngor i wneud penderfyniadau ynghylch y tâl sy'n briodol i'r amgylchiadau lleol ac sy'n cynnig gwerth am arian i'r trethdalwyr lleol.

## 4. DATBLYGU STRATEGAETH CYFLOGAU A THALIADAU

4.1 Prif nod strategaeth daliadau yw denu, cadw a chymell staff sydd â'r sgiliau addas er mwyn i'r Awdurdod sicrhau'r perfformiad gorau. Yr her fwyaf i'r Cyngor yn yr hinsawdd sydd ohoni yw sicrhau'r cynhyrchiant a'r effeithlonrwydd mwyaf posibl gyda'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r Polisi Cyflogau yn fater lled anodd o sicrhau cydbwysedd o ran gosod y taliadau ariannol ar lefelau priodol i hwyluso cyflenwad digonol o unigolion sy'n meddu ar y sgiliau priodol i lanw'r amrywiol swyddi sydd yn yr Awdurdod, a sicrhau nad yw'r baich ar y trethdalwr yn fwy na'r hyn y gellir ei gyfiawnhau'n llawn ac yn wrthrychol.

4.2 Yn y cyd-destun hwn, mae angen i lefelau cydnabyddiaeth ariannol y swyddi uwch yn arbennig allu denu ymgeiswyr sydd ag amrywiaeth eang o ddoniau (a fydd yn ddelfrydol yn cynnwys pobl o'r sector preifat yn ogystal â'r sector cyhoeddus yng Nghymru a'r tu allan i Gymru), a chadw unigolion sydd â sgiliau a chymwysterau addas ar ôl iddynt gychwyn yn eu swyddi. Cofiwch, mae'r Cyngor yn aml yn cystadlu yn erbyn cyflogwyr da eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat pan fydd yn recriwtio.

4.3 Hefyd, y Cyngor yw'r cyflogwr mwyaf yn yr ardal. Felly, mae'n rhaid inni ystyried y rôl sydd gennym o ran gwella lles economaidd pobl Ceredigion. Mae swyddi da ar delerau ac amodau rhesymol ac am dâl teg yn llesol i ansawdd bywyd pawb yn ogystal â'r economi lleol. Mae'r Cyngor hefyd yn chwarae ei ran wrth osod esiampl lle mae telerau ac amodau yn y cwestiwn i gyflogwyr eraill yn yr ardal am yr un rhesymau.

4.4 Wrth lunio, datblygu ac adolygu Strategaeth ar gyfer Cyflogau a Thaliadau, bydd y Cyngor yn ceisio pwyso a mesur y ffactorau hyn yn briodol er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer yr Awdurdod a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu, gan reoli costau cyflogau'n briodol a sicrhau digon o hyblygrwydd i ateb anghenion y dyfodol. Caiff y Polisi Cyflogau hwn ei adolygu a'i gymeradwyo'n flynyddol gan y Cyngor Llawn.

## 5. Y STRWYTHUR CYFLOGAU

5.1 Mae'r Cyngor yn defnyddio'r golofn gyflogau a drafodir yn genedlaethol gan y Cydgyngor Cenedlaethol (NJC) yn sail ar gyfer ei strwythur cyflogau, heblaw am y ffaith ei fod wedi ymestyn y raddfa uchaf o bwynt 49 hyd bwynt 55 ar y golofn gyflogau. Dyma sy'n penderfynu cyflogau'r mwyafrif helaeth o'r gweithwyr heblaw am athrawon, yn ogystal â chyfraddau eraill sy'n cael eu gosod yn genedlaethol lle bo'n berthnasol. O 1 Ebrill 2018 ymlaen mae Cyflogwyr Llywodraeth Leol yn cynnig cynnydd am ddwy flynedd ar gyfer pwyntiau 7 hyd 55 y Golofn Gyflogau (gweler **Atodiad A** am fanylion y cyflogau ar hyn o bryd).

Y Flwyddyn Gyntaf – 1 Ebrill 2018
Llwytho’r cynnydd tua’r gwaelod ar bwyntiau 6, 7, 8 a 9, gan greu cyfradd isaf newydd o £8.50 yr awr. Os cymeradwyir hynny, dylid nodi na thelir swm atodol y cyflog byw y mae Cyngor Sir Ceredigion yn ei dalu ar hyn o bryd i’r aelodau hynny o staff sydd ar bwyntiau 7 ac 8, gan y bydd y gyfradd isaf yn fwy na’r isafswm cyflog presennol, sef £7.9692 yr awr.

Yr Ail Flwyddyn - 1 Ebrill 2019
Aildrefnu’r deuddeg pwynt cyflog isaf i greu chwech ohonynt, gyda chyfradd isaf (sy’n cyfuno Pwyntiau 1 a 2) o £9.00. Ar ben hynny gwastatáu’r gwahaniaethau rhwng y pwyntiau cyflog a chael cynnydd o 2.0% rhwng pwynt 1 a phwynt 22 o dan y drefn newydd. O bwynt 23 ymlaen cynigir cynnydd unffurf o 2.0%, gan gadw’r gwahaniaethau presennol.

5.2 Mae'r holl lwfansau eraill sy’n gysylltiedig â chyflogau’n amodol ar y cyfraddau sydd wedi cael eu trafod yn genedlaethol neu'n lleol, ac sydd wedi eu gosod o bryd i'w gilydd yn unol â'r gweithdrefnau sy’n ymwneud â chydfargeinio ac/neu fel y’u pennir gan Bolisi'r Cyngor.

5.3 Fel arfer, caiff gweithwyr newydd eu penodi ar waelod y raddfa berthnasol, er bod modd amrywio hynny lle bo angen er mwyn penodi'r ymgeisydd gorau.

5.4 **Buddion eraill y staff**

Cred y Cyngor fod cyfrifoldeb arno i helpu iechyd, lles a llesiant y staff er mwyn sicrhau bod eu perfformiad nhw gyda’r gorau. Yn hynny o beth, ac fel y mae llawer o gyflogwyr eraill yn ei wneud, mae’r Cyngor yn darparu nifer o fuddion ar ben y cyflogau, megis talebau profion llygaid ar gyfer pobl sy’n gweithio ar gyfarpar sgriniau arddangos yn y gwaith, a threfniadau aberthu cyflog ar gyfer talebau gofal plant, prydlesu ceir a beicio i’r gwaith. Gall staff y Cyngor fanteisio hefyd ar amrywiaeth o fargeinion a gynigir drwy’r cynllun cerdyn Vectis y mae’r Cyngor wedi’i fabwysiadu.

**5.5 Lwfansau Cymorth Cyntaf**
Mae gweithwyr sydd wedi’u dynodi’n ‘swyddogion cymorth cyntaf’ yn gymwys i dderbyn lwfans.

## 6. CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL

6.1 Mae pawb o'r staff sy'n aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gwneud cyfraniadau unigol i'r cynllun yn unol â'r tabl canlynol:

| Band | Ystod cyflog cyfwerth amser cyflawn | Cyfradd cyfraniad y gweithiwr (%) | Adran 50/50 (%) |
|---|---|---|---|
| **1.** | Hyd at £14,100 | 5.5% | 2.75 |
| **2** | £14,101 - £22,000 | 5.8% | 2.90 |
| **3** | £22,001 - £35,700 | 6.5% | 3.25 |
| **4** | £35,701 - £45,200 | 6.8% | 3.40 |
| **5** | £45,201 - £63,100 | 8.5% | 4.25 |
| **6** | £63,101 - £89,400 | 9.9% | 4.95 |
| **7** | £89,401 - £105,200 | 10.5% | 5.25 |
| **8** | £105,201- £157,800 | 11.4% | 5.70 |
| **9** | £157,801 neu fwy | 12.5% | 6.25 |

6.2 Mae cyfradd cyfraniad y Cyflogwr yn cael ei phennu gan Actiwarïaid sy'n cynghori Cronfa Bensiwn Dyfed ac mae'n cael ei hadolygu bob tair blynedd er mwyn sicrhau bod y cynllun wedi ei ariannu'n briodol..

## 7. GWERTHUSO SWYDDI

7.1 Mae gwerthuso swyddi'n ffordd systematig o bennu gwerth swydd o'i chymharu â swyddi eraill o fewn sefydliad. Y nod yw gwneud cymhariaeth systematig rhwng swyddi i asesu eu gwerth cymharol at ddiben sefydlu strwythur cyflogau rhesymegol, a sicrhau tegwch cyflogau ymhlith swyddi.

7.2 Sicrhaodd y Cyngor Statws Sengl i bob aelod o staff o ran Cyflogau a Graddio a Thelerau ac Amodau yn ystod haf 2012.

## 8. YCHWANEGIADAU'R FARCHNAD

8.1 Mae gwerthuso swyddi'n galluogi'r Cyngor i osod lefelau taliadau priodol yn seiliedig ar elfennau cymharol maint swyddi mewnol yn y Cyngor. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd gall fod angen ystyried y farchnad gyflogau allanol er mwyn denu a chadw gweithwyr sydd â'r profiad, y sgiliau a'r gallu priodol.

8.2 Mae gan y Cyngor Bolisi Ychwanegiadau'r Farchnad i sicrhau bod y gofyniad amdano wedi'i gyfiawnhau'n wrthrychol, trwy gyfeirio at dystiolaeth glir a thryloyw o gymaryddion marchnad perthnasol, gan ddefnyddio ffynonellau data priodol sydd ar gael o fewn ac oddi allan i'r sector llywodraeth leol. Bydd yn rhan o bolisi'r Cyngor i gadw unrhyw daliadau ychwanegol o'r fath i'r lefel leiaf bosibl, a'u hadolygu'n gyson er mwyn gallu eu diddymu pan ystyrir nad oes eu hangen mwyach.

## 9. HONORARIA

9.1 Weithiau gellir gofyn i weithiwr ymgymryd â dyletswyddau sy'n ychwanegol at ddyletswyddau'r brif swydd am gyfnod. Mewn achosion o'r fath gellir gwneud taliad ychwanegol yn unol â pholisi'r Cyngor ar Daliadau Honoraria.

## 10. AILGYFLOGI

10.1 Nid yw’r Cyngor yn arfer ailgyflogi Prif Swyddogion sydd wedi ymddeol o’u gwaith gyda’r Cyngor i'w swyddi blaenorol; nid yw chwaith yn arfer gan y Cyngor gyflogi Prif Swyddogion sydd wedi ymddeol o’u gwaith llawn amser mewn Cynghorau eraill mewn swyddi parhaol.

## 11. CYFLOGAU A PHERFFORMIAD

11.1 Mae'r Cyngor yn disgwyl lefelau uchel o berfformiad gan bob un o'r staff ac mae Cynllun Adolygu Blynyddol ar waith i fonitro, gwerthuso a rheoli perfformiad yn barhaus..

## 12. CYDWEITHIO AR BROSIECTAU

12.1 Lle bynnag y bo'n bosibl, mae'r Cyngor o blaid rhannu adnoddau ag awdurdodau eraill i sicrhau bod swyddogaethau’r naill a’r llall yn cael eu cyflawni yn y dull mwyaf effeithiol, effeithlon ac economaidd.

## 13. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I BRIF SWYDDOGION

### 13.1 DIFFINIAD PRIF SWYDDOG

13.1.1 At ddibenion y datganiad hwn, mae 'Prif Swyddogion' fel y’u diffinnir yn Adran 43 Deddf Lleoliaeth. Mae'r swyddi sy’n berthnasol i ddiffiniad statudol Adran 43 Deddf Lleoliaeth wedi'u nodi isod (mae manylion y strwythurau cyflogau i'w gweld yn **Atodiad B**):

a) Prif Weithredwr (1 mewn nifer)
b) Y Dirprwy Brif Weithredwr (dilëwyd o’r strwythur fis Tachwedd 2017)
c) Cyfarwyddwyr Strategol (2 mewn nifer – dilëwyd un swydd o’r strwythur fis Tachwedd 2017)
ch) Penaethiaid y Gwasanaethau (9 mewn nifer ar hyn o bryd)

Mae adolygiad o strwythur y Prif Swyddogion yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, yn unol â’r hyn a gytunwyd fis Tachwedd 2017 fel cam cyntaf y drefn Ailstrwythuro Corfforaethol. Y cynnig yw:

- Bod y ddau Gyfarwyddwr Strategol yn dod yn Gyfarwyddwyr Corfforaethol
- Bod y Penaethiaid Gwasanaethau’n dod yn Swyddogion Arweiniol Corfforaethol gan ymdrin â deuddeg o feysydd cyfrifoldeb.

13.1.2 Mae’r Cyngor yn cyflogi Prif Swyddogion o dan amodau a thelerau’r Cydgyngor Trafod Telerau sydd wedi’u hymgorffori yn eu contractau. Mae Cydgyngor Trafod Telerau'r Prif Swyddogion yn negodi codiad cyflog costau byw cenedlaethol blynyddol (y Deyrnas Gyfunol) i’r grŵp hwnnw a phennir unrhyw ddyfarniad yn y cyswllt hwn ar y sail hon. Mae hawl yn ôl contract gan Brif Swyddogion a gyflogir o dan amodau a thelerau’r Cydbwyllgor Trafod Telerau i gael unrhyw godiadau cyflog y penderfyna’r Cydbwyllgor Trafod Telerau

cenedlaethol arnynt ac felly bydd y Cyngor hwn yn talu’r codiadau hynny pryd bynnag y penderfynir arnynt yn unol â gofynion presennol eu contractau. Adolygir cyflogau Prif Swyddogion yn ystod 2018/19.

13.1.4 Does dim trefn o dalu bonws na chyflog yn ôl perfformiad na bonws ar gyfer cyflogau'r Prif Swyddogion.

13.1.5 Mae nifer o swyddi gan y Cyngor yng Ngwasanaethau'r Ysgolion lle mae'r staff yn cael eu cyflogi o dan delerau ac amodau’r Cydgyngor (NJC) ond ar raddfeydd Soulbury. Mae'r manylion yn **Atodiad C.**

13.2 **RECRIWTIO PRIF SWYDDOGION**

13.2.1 Mae Polisi a Gweithdrefnau'r Cyngor ynghylch recriwtio Prif Swyddogion i'w gweld yn y Rheolau Gweithdrefn Cyflogi Swyddogion, Rhan 4 y Cyfansoddiad. Bydd y cyflog a gynigir i unrhyw Brif Swyddog sydd newydd ei benodi’n cael ei bennu yn unol â'r strwythur cyflogau a'r polisïau perthnasol sydd mewn grym ar adeg y recriwtio.

13.3 **YCHWANEGIADAU AT GYFLOGAU PRIF SWYDDOGION**

13.3.1 Mae'r Cyngor yn talu'r holl gostau teithio a chynhaliaeth rhesymol o gael derbynebau ac yn unol â thelerau ac amodau’r Cydgyngor (JNC) ac eraill a drafodir yn lleol.

13.3.2 Mae'r Awdurdod yn talu tâl aelodaeth un corff proffesiynol. Adolygir y taliad hwn yn ystod 2018/19.

13.3.3 Cyfraniad o £142.08 y flwyddyn tuag at gostau rhentu llinell ffôn / band eang. Adolygir y taliad hwn yn ystod 2018/19.

13.3.4 Mae dyletswydd ar y Cyngor i benodi Swyddog Canlyniadau Dros Dro ar gyfer etholiadau a refferenda penodol. Penodwyd y Prif Weithredwr i'r rôl honno yng Ngheredigion. Mae tâl ychwanegol er cydnabyddiaeth am y cyfrifoldebau ychwanegol a gyflawnir ar ddyletswyddau sy’n ymwneud ag Etholiadau Lleol. Caiff y tâl am gyflawni dyletswyddau Etholiadau Lleol ei bennu a’i gytuno gan y Cyngor cyn pob etholiad. Caiff ffioedd y Swyddog Canlyniadau o ran Etholiadau Ewrop, Etholiadau Cenedlaethol a Refferenda eu pennu a’u talu naill ai gan Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol neu Lywodraeth Cymru.

13.4 **TALIADAU TERFYNU CYFLOGAETH**

13.4.1 Mae dull y Cyngor o drin taliadau statudol a dewisol pan derfynir cyflogaeth Prif Swyddogion (a'r holl weithwyr eraill), cyn iddynt gyrraedd yr oed ymddeol arferol, i'w weld yn ei Bolisi Ymddeoliad Cynnar a Cholli Gwaith, yn unol â Rheoliadau 5 a 6 Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Digolledu Dewisol) 2006 (gweler Atodiad D). Mae hyn yn berthnasol i daliadau colli gwaith sy'n seiliedig ar enillion wythnosol gwirioneddol (Rheoliad 5) a byddai taliad colli gwaith ychwanegol o hyd at 45 wythnos o dâl yn cael ei roi (Rheoliad 6). Nid yw Rheoliadau 12 a 13 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 yn berthnasol

oherwydd nid yw'r Awdurdod yn cynyddu cyfanswm aelodaeth aelodau gweithredol (Rheoliad 12) nac yn rhoi pensiwn ychwanegol (Rheoliad 13).

13.4.2 Bydd unrhyw daliadau eraill sydd heb eu cynnwys o dan y darpariaethau neu'r cyfnodau perthnasol o rybudd cytundebol yn cael eu pennu gan y swyddogion hynny sydd wedi'u hawdurdodi i gymeradwyo taliadau o'r fath gan y Cyfansoddiad.

13.4.3 Bydd yn rhaid i'r Cyngor Llawn gymeradwyo unrhyw becynnau diswyddo sy'n uwch na'r trothwy presennol y penderfynodd Gweinidogion Cymru arno, sef £100,000. Bydd yr Aelodau yn cael gwybod am unrhyw elfennau yn ôl contract neu elfennau statudol y pecyn diswyddo ynghyd â chanlyniadau cadw'r rhain yn ôl o safbwynt cyfraith cyflogaeth.

13.4.4 Mae Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol wedi datgan ei bod yn bwriadu gosod cyfyngiad statudol ar daliadau ymadael yn y sector cyhoeddus. Bydd yr Awdurdod yn adolygu'r polisi sydd ganddo ynghylch y taliadau a wneir pan derfynir cyflogaeth er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag unrhyw reoliadau a allai gael eu cyflwyno yn 2018-2019 i weithredu'r cyfyngiad ar daliadau ymadael.

## 14. CYMARIAETHAU CYFLOGAU'R AWDURDOD

14.1 Mae'r gweithwyr sydd ar y cyflogau isaf sy'n cael eu cyflogi o dan Gontract Cyflogaeth gyda'r Cyngor yn cael eu cyflogi ar gyflogau cyfwerth ag amser llawn [37 awr] yn unol â'r pwynt isaf ar y golofn gyflogau sydd ar waith ar hyn o bryd ar strwythur graddio'r Cyngor. Ar 1 Ebrill 2018, roedd hynny'n £15,375 y flwyddyn (hyd oni weithredir y cynnydd arfaethedig) Gall y cyngor gyflogi Prentisiaid (a gweithwyr eraill dan hyfforddiant yn yr un modd) na chânt eu cynnwys yn y diffiniad o 'weithwyr sydd ar y cyflogau isaf' gan nad yw'r Cyngor yn eu cyflogi o dan Gontractau Cyflogaeth.

14.2 Pennir y berthynas sydd rhwng cyfradd gyflogau'r rhai sydd ar y cyflogau isaf a chyflogau'r Prif Swyddogion gan y prosesau a ddefnyddir i bennu'r strwythurau cyflogau a graddio, fel y'u gosodir yn y Datganiad Polisi hwn.

14.3 Mae'r canllawiau statudol o dan y Ddeddf Lleoliaeth yn argymell y dylid defnyddio lluosrifau tâl fel ffordd o fesur y berthynas rhwng cyfraddau cyflogau ar draws y gweithlu â thâl yr uwch reolwyr, yn unol ag Adroddiad Hutton 'Review of Fair Pay in the Public Sector' (2010). Gofynnodd y Llywodraeth i Adroddiad Hutton ymchwilio i'r achos dros osod terfyn sefydlog ar gyfer ystod cyflogau trwy fynnu na all unrhyw reolwr yn y sector cyhoeddus ennill mwy nag 20 gwaith yr hyn a delir i'r sawl sy'n derbyn y cyflog isaf yn y sefydliad. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod y berthynas ag enillion canolrifol yn fesur mwy perthnasol, ac mae Cod Arfer a Argymhellir y Llywodraeth ar Dryloywder Data yn argymell y dylid cyhoeddi'r gymhareb rhwng y cyflog uchaf â'r cyflog canolrifol ar gyfer holl weithlu'r Awdurdod.

14.4 Mae lluosrifau cyflogau Cyngor Sir Ceredigion fel a ganlyn:

- Y lluosrif rhwng y gweithiwr cyfwerth ag amser llawn sy'n derbyn y cyflog isaf a'r Prif Weithredwr yw **1:7.3**
- Y lluosrif rhwng y gweithiwr sy'n derbyn y cyflog isaf â chyfartaledd cyflog uchaf y Prif Swyddogion yw **1:5.3**
- Y lluosrif rhwng yr enillion cyfwerth ag amser llawn canolrifol (ac eithrio athrawon) ac uchafswm cyflog y Prif Weithredwr yw **1:6.7**
- Y lluosrif rhwng yr enillion cyfwerth ag amser llawn canolrifol (ac eithrio athrawon) ac uchafswm cyfartalog cyflogau uchaf y Prif Swyddogion yw **1:4.9**

(Cafodd y lluosrifau uchod eu cyfrifo ar sail cyflog Cyfwerth ag Amser Llawn sylfaenol yn unig).

## 15. PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

15.1 Mae Adran 143A Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cyfeirio at Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac mae’n nodi’r swyddogaethau sydd ganddo o ran cyflogau Penaethiaid Gwasanaethau Cyflogedig. Gall y Panel wneud argymhellion ynghylch unrhyw bolisi y cyfeirir ato yn y Datganiad Polisi Cyflogau hwn sy’n ymwneud â chyflog Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig y Cyngor ac unrhyw newid arfaethedig i gyflog Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig y Cyngor. Bydd y Cyngor, fel bo’n ofynnol, yn ymgynghori gyda’r Panel ynghylch unrhyw newidiadau i gyflog os nad ydynt yn gymesur â newidiadau i gyflogau gweddill staff y Cyngor, a bydd yn rhoi sylw i unrhyw argymhellion a geir gan y Panel wrth benderfynu a yw am fwrw ymlaen â’r newid ai peidio.

15.2 Mae Adran 39 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 yn nodi'r dyletswyddau estynedig sydd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ers 26 Ionawr 2016 i'w gwneud hi'n ofynnol i bob awdurdod lleol sy'n arfaethu gwneud newidiadau yn nhâl y Prif Swyddog nad ydynt yn 'gymesur â'r newid yng nghyflogau staff eraill yr awdurdod' gyflwyno hynny gerbron y Panel er mwyn iddo wneud argymhelliad yn ei gylch cyn gwneud y newid, a bod yn rhaid i'r awdurdod roi sylw dyledus i argymhelliad y Panel wrth benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newid ai peidio. Bydd y Cyngor yn cadw at y darpariaethau hyn a dylid ystyried bod unrhyw gyfeiriadau at y prosesau sydd gan y Cyngor i benderfynu ar unrhyw agwedd ar dâl y prif weithredwr neu'r prif swyddog yn cynnwys y ddarpariaeth hon, lle nad yw'r newid perthnasol yn 'gymesur â newid yng nghyflogau staff eraill yr awdurdod'.

## 16. CYHOEDDI

16.1 Pan fydd y Cyngor llawn wedi cymeradwyo'r datganiad hwn caiff ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

16.2 Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â’r gofynion o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010 i gynnwys yn ei Ddatganiad Cyfrifon Blynyddol yr wybodaeth sy'n ofynnol am y gweithwyr hynny lle bo’r cyflog cyfwerth â llawn amser yn £60,000 o leiaf y flwyddyn.

## 17. ATEBOLRWYDD A GWNEUD PENDERFYNIADAU

17.1 Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, y Cabinet sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â recriwtio, cyflogau, telerau ac amodau, a threfniadau diswyddo gweithwyr y Cyngor.

## 18. PARTNERIAETH Â'R UNDEBAU LLAFUR

18.1 Bydd y Cyngor yn ceisio cynnal y dull adeiladol o weithio mewn partneriaeth sydd ganddo â'r Undebau Llafur cydnabyddedig, a bydd yn parhau i gydweithio'n agos â nhw ar faterion sy'n ymwneud â chyflogau. Bydd cydfargeinio'n mynd rhagddo fel bo'n briodol ar gyfer unrhyw newidiadau arfaethedig i gyflog ac/neu lwfansau.

## 18. ADOLYGU'R POLISI

18.1 Mae'r Polisi hwn yn disgrifio'r sefyllfa bresennol sydd o ran cyflogau a thaliadau yn y Cyngor, a chaiff ei adolygu yn ystod y flwyddyn nesaf i sicrhau ei fod yn bodloni egwyddorion tegwch, cydraddoldeb, atebolrwydd a gwerth am arian ar gyfer pobl Ceredigion. Caiff y Polisi ei adolygu'n flynyddol a'i gyflwyno gerbron y Cyngor.

**ATODIAD A**

## GRADDFEYDD CYFLOGAU GWEITHWYR NJC 2017/18
**(HYD ONI WEITHREDIR Y CYNNYDD ARFAETHEDIG)**

| | | | Ychwanegiadau | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gradd** | **Band Sgôr Gwerthuso Swyddi** | **Pwyntiau / Ychwanegiadau ar y Golofn Gyflogau** | **Isaf (CALI)** | **Canol (CALI)** | **Uchaf (CALI)** |
| **1.** | 0-259 | 9 | £15,375 | | |
| **2** | 0-260 | 9 | £15,375 | - | |
| **3** | 295 – 329 | 10 – 11 | £15,613 | - | £15,807 |
| **4** | 330 – 364 | 12 - 13 | £16,123 | - | £16,491 |
| **5** | 365 – 399 | 14 – 16 | £16,781 | £17,072 | £17,419 |
| **6** | 400 – 434 | 18 – 20 | £18,070 | £18,746 | £19,430 |
| **7** | 435 – 469 | 22 – 24 | £20,661 | £21,268 | £21,962 |
| **8** | 470 – 504 | 26 – 28 | £23,398 | £24,174 | £24,964 |
| **9** | 505 – 539 | 30 – 32 | £26,822 | £27,668 | £28,485 |
| **10** | 540 – 579 | 34 – 36 | £30,153 | £30,785 | £31,601 |
| **11** | 580 – 619 | 38 – 40 | £33,437 | £34,538 | £35,444 |
| **12** | 620 – 659 | 41 – 43 | £36,379 | £37,306 | £38,237 |
| **13** | 660 – 699 | 45 – 47 | £40,057 | £41,025 | £41,967 |
| **14** | 700 – 739 | 49 – 51 | £43,821 | £44,732 | £45,630 |
| **15** | 740 - | 53 - 55 | £47,445 | £48,349 | £49,256 |

**ATODIAD B**

## GRADDFEYDD CYFLOGAU'R PRIF SWYDDOGION 2017/18
**(HYD ONI WEITHREDIR Y CYNNYDD ARFAETHEDIG)**

| GRADDFA GYFLOG Y PRIF WEITHREDWR<br>£99,229 hyd £110,257 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Pwynt 1** | **Pwynt 2** | **Pwynt 3** | **Pwynt 4** | **Pwynt 5** |
| £99,229 | £101,987 | £104,743 | £107,499 | £110,257 |

| GRADDFEYDD CYFLOGAU'R CYFARWYDDWYR STRATEGOL<br>£86,779 hyd £95,249 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Pwynt 1** | **Pwynt 2** | **Pwynt 3** | **Pwynt 4** | **Pwynt 5** |
| £86,779 | £88,896 | £91,013 | £93,131 | £95,249 |

| GRADDFEYDD CYFLOGAU PENAETHIAID Y GWASANAETHAU<br>£64,360 hyd £70,640 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Pwynt 1** | **Pwynt 2** | **Pwynt 3** | **Pwynt 4** | **Pwynt 5** |
| £64,360 | £65,930 | £67,500 | £69,071 | £70,640 |

# ATODIAD C

## GRADDFEYDD CYFLOGAU SOULBURY – 2016/17

## STAFF PROFFESIYNOL GWELLA ADDYSG 2016/17

| Pwynt Cyflog | Cyflog o 1.9.16 | Cyflog o 1.9.17 |
|---|---|---|
| 1 | 33730 | 34067 |
| 2 | 34938 | 35287 |
| 3 | 36078 | 36439 |
| 4 | 37234 | 37606 |
| 5 | 38383 | 38767 |
| 6 | 39533 | 39928 |
| 7 | 40741 | 41148 |
| 8 | 41902* | 42321* |
| 9 | 43256 | 43689 |
| 10 | 44463 | 44908 |
| 11 | 45655 | 46112 |
| 12 | 46809 | 47277 |
| 13 | 48116** | 48597** |
| 14 | 49280 | 49773 |
| 15 | 50567 | 51073 |
| 16 | 51731 | 52248 |
| 17 | 52897 | 53426 |
| 18 | 54042 | 54582 |
| 19 | 55223 | 55775 |
| 20 | 55833*** | 56391*** |
| 21 | 57005 | 57575 |
| 22 | 58027 | 58607 |
| 23 | 59152 | 59744 |
| 24 | 60160 | 60762 |
| 25 | 61239 | 61851 |
| 26 | 62291 | 62914 |
| 27 | 63367 | 64001 |
| 28 | 64457 | 65102 |
| 29 | 65551 | 66207 |
| 30 | 66643 | 67309 |
| 31 | 67725 | 68402 |
| 32 | 68824 | 69512 |
| 33 | 69924 | 70623 |
| 34 | 71050 | 71761 |
| 35 | 72173 | 72895 |
| 36 | 73329 | 74062 |
| 37 | 74465 | 75210 |
| 38 | 75615 | 76371 |
| 39 | 76748 | 77515 |
| 40 | 77880 | 78659 |
| 41 | 79019 | 79809 |
| 42 | 80156 | 80958 |
| 43 | 81293 | 82106 |
| 44 | 82435 | 83259 |
| 45 | 83574 | 84410 |

| | | |
|---|---|---|
| 46 | 84715 | 85562 |
| 47 | 85860 | 86719 |
| 48 | 86995**** | 87865**** |
| 49 | 88135**** | 89016**** |
| 50 | 89275**** | 90168**** |

Nodiadau:
Ni ddylai graddfeydd cyflog gynnwys mwy na phedwar pwynt olynol, yn seiliedig ar ychwanegu at ddyletswyddau a chyfrifoldebau swyddi a'r angen i recriwtio a chymell y staff.

* y pwynt isaf arferol ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg sy'n gwneud dyletswyddau llawn ar y lefel hon

** y pwynt isaf arferol ar gyfer Uwch Weithwyr Proffesiynol Gwella Addysg sy'n gwneud dyletswyddau llawn ar y lefel hon

*** y pwynt isaf arferol ar gyfer Prif Weithwyr Proffesiynol Gwella Addysg sy'n gwneud dyletswyddau llawn ar y lefel hon

**** estyniad at yr ystod er mwyn rhoi cyfrif am asesiadau proffesiynol strwythuredig.

**SEICOLEGWYR ADDYSG 2016/17 - GRADDFA A**

| **Pwynt Cyflog** | **Cyflog o 1.9.16** | **Cyflog o 1.9.17** |
|---|---|---|
| 1 | 35,377 | 35,731 |
| 2 | 37173 | 37545 |
| 3 | 38969 | 39359 |
| 4 | 40764 | 41171 |
| 5 | 42558 | 42984 |
| 6 | 44353 | 44797 |
| 7 | 46044 | 46504 |
| 8 | 47734 | 48211 |
| 9 | 49317* | 49810* |
| 10 | 50902* | 51411* |
| 11 | 52380* | 52903* |

Nodiadau:
Ni ddylai graddfeydd cyflog gynnwys mwy na phedwar pwynt olynol, yn seiliedig ar ychwanegu at ddyletswyddau a chyfrifoldebau swyddi a'r angen i recriwtio a chymell y staff.

**** Estyniad at yr ystod er mwyn rhoi cyfrif am asesiadau proffesiynol strwythuredig.

**UWCH A PHRIF SEICOLEGWYR ADDYSG 2016/17**
**GRADDFA GYFLOG (B)**

| <u>**Pwynt Cyflog**</u> | **Cyflog o 1.9.16** | **Cyflog o 1.9.17** |
|---|---|---|
| 1 | 44353 | 44797 |
| 2 | 46044 | 46504 |
| 3 | 47734 | 48211* |
| 4 | 49317 | 49810 |
| 5 | 50902 | 51411 |
| 6 | 52380 | 52903 |
| 7 | 52987 | 53516 |
| 8 | 54120 | 54661 |
| 9 | 55243 | 55795 |
| 10 | 56386 | 56950 |
| 11 | 57506 | 58081 |
| 12 | 58649 | 59235 |
| 13 | 59811 | 60409 |
| 14 | 60933 | 61543** |
| 15 | 62110 | 62731** |
| 16 | 63275 | 63908** |
| 17 | 64448 | 65093** |
| 18 | 65620 | 66276** |

<u>Nodiadau:</u>
Ni ddylai graddfeydd cyflog gynnwys mwy na phedwar pwynt olynol, yn seiliedig ar ychwanegu at ddyletswyddau a chyfrifoldebau swyddi a'r angen i recriwtio a chymell y staff.

* Y pwynt isaf arferol ar gyfer y prif seicolegydd addysg sy’n gwneud dyletswyddau llawn ar y lefel hon

** Estyniad i’r raddfa i gynnwys pwyntiau graddfa dewisol ac asesiadau proffesiynol strwythuredig.

**SEICOLEGWYR ADDYSG CYNORTHWYOL 2016/17**

| <u>**Pwynt Cyflog**</u> | **Cyflog o 1.9.16** | **Cyflog o 1.9.17** |
|---|---|---|
| 1 | 27939 | 28218 |
| 2 | 29080 | 29371 |
| 3 | 30221 | 30523 |
| 4 | 31355 | 31669 |

**SEICOLEGWYR ADDYSG DAN HYFFORDDIANT 2016/17**

| <u>**Pwynt Cyflog**</u> | **Cyflog o 1.9.16** | **Cyflog o 1.9.17** |
|---|---|---|
| 1 | 22728 | 22955 |
| 2 | 24393 | 24636 |
| 3 | 26054 | 26314 |
| 4 | 27718 | 27996 |
| 5 | 29381 | 29675 |
| 6 | 31044 | 31355 |

**Mae'r polisi hwn yn weithredol ers 19 Ionawr 2015 ac mae'n cwmpasu'r agweddau hynny a ddarperir gan y rheoliadau presennol (fel y nodir isod) ac fe gânt eu cyhoeddi yn ôl disgresiwn y Cyflogwr. Gall y disgresiwn hwnnw newid naill ai'n unol ag unrhyw newidiadau yn y rheoliadau neu drwy ystyriaeth briodol gan yr Awdurdod. Nid yw'r darpariaethau hyn yn rhoddi unrhyw hawliau cytundebol.**

**Mae manylion am ddisgresiwn yr Awdurdod Gweinyddu ar gael gan Adain Bensiynau Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin neu ar wefan y Gronfa Bensiwn: www.dyfedpensionfund.org.uk**

## Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013

| Disgresiwn | Rheoliad | Polisi |
|---|---|---|
| A ddylid cyfrannu at gynllun Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol lle mae'r costau'n cael eu rhannu, faint o gyfraniad ac o dan ba amgylchiadau. | 16(2)(e)* & 16(4)(d)* | Peidio â gweithredu'r disgresiwn hwn |
| A ddylid cyfrannu at gynllun Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol lle mae'r costau'n cael eu rhannu a sefydlwyd ar 1/4/14 neu wedi hynny, faint o gyfraniad ac o dan ba amgylchiadau. | 17 | Gweithredu'r disgresiwn hwn ar gyfer cyfraniadau aberthu cyflog. Pennir cyfraniadau'r gweithwyr yn £1 am bob cyfnod cyflog, a chaiff hynny ei gynnwys yng nghyfanswm y cyfraniad. Bydd y rhai sydd eisoes yn rhan o gynllun Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol ac aelodau newydd yn trosglwyddo'n awtomatig i'r cynllun lle mae'r costau'n cael eu rhannu, oni ddewisant i beidio. |
| A ellir talu rhai neu'r cyfan o'r buddion, os bydd gweithiwr yn gostwng ei oriau neu ei radd (ymddeoliad hyblyg) | 30(6)* | Ystyried pob cais gan roi cyfrif am bob mater ariannol a phopeth sy'n ymwneud â darpariaeth y gwasanaethau |
| A ddylid hepgor, yn rhannol neu'n gyfan gwbl, y gostyngiadau actwaraidd ar y buddion a delir ar ymddeoliad hyblyg. | 30(8)* | Ystyried pob cais gan roi cyfrif am bob mater ariannol a phopeth sy'n ymwneud â darpariaeth y gwasanaethau |
| A ddylid hepgor, yn rhannol neu'n gyfan gwbl, y gostyngiadau actwaraidd ar y | 30(8)* | Ystyried pob cais gan roi cyfrif am bob mater ariannol a phopeth |

| | | |
|---|---|---|
| buddion y bydd yr aelod yn eu tynnu cyn yr oedran pensiwn arferol. | | sy'n ymwneud â darpariaeth y gwasanaethau. |
| A ddylid caniatáu pensiwn ychwanegol i aelod gweithredol neu o fewn 6 mis ar ôl iddo/iddi orffen bod yn aelod gweithredol oherwydd colli gwaith neu effeithlonrwydd busnes (o hyd at £6,500 y flwyddyn). | 31* | Peidio â gweithredu'r disgresiwn hwn |

## Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Newid) 2014

| Disgresiwn | Rheoliad | Polisi |
|---|---|---|
| A ddylid cychwyn y rheol 85 mlynedd ar gyfer aelod sy'n tynnu buddion yn wirfoddol yn 55 oed neu wedi hynny a chyn ei 60 oed. | Atodlen 2, paragraff 1(2) a 2(2)* | Ystyried pob cais gan gymryd i ystyriaeth bob mater ariannol a phopeth sy'n ymwneud â darpariaeth y gwasanaethau |
| A ddylid hepgor, am resymau tosturiol, y gostyngiadau actwaraidd ar y buddion o'r aelodaeth o'r cyfnod cyn 1 Ebrill 2014 lle mae'r Cyflogwr wedi cychwyn y Rheol 85 Mlynedd ar gyfer aelod sy'n tynnu buddion yn wirfoddol yn 55 oed neu wedi hynny a chyn ei 60. | Atodlen 2, paragraff 2(3)* | Ystyried pob cais gan roi cyfrif am bob mater ariannol a phopeth sy'n ymwneud â darpariaeth y gwasanaethau |

## Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007

| Disgresiwn | Rheoliad | Polisi |
|---|---|---|
| A ddylid cynyddu aelodaeth (hyd at 10 mlynedd) i aelod sy'n gadael oherwydd colli gwaith neu effeithlonrwydd busnes ar 31 Mawrth 2014 neu cyn hynny. Byddai'n rhaid penderfynu gwneud hynny | 12* | Peidio â gweithredu'r disgresiwn hwn |

| | | |
|---|---|---|
| cyn pen 6 mis wedi'r dyddiad ymadael. **Felly, mae'r disgresiwn hwn yn darfod yn llwyr ar ôl 30 Medi 2014.** | | |
| A ddylid caniatáu cais i dalu buddion gohiriedig yn gynnar yn 55 oed neu wedi hynny a chyn ei 60. | 30(2)* | Ystyried pob cais gan gymryd i ystyriaeth bob mater ariannol a phopeth sy'n ymwneud â darpariaeth y gwasanaethau |
| A ddylid hepgor, am resymau tosturiol, y gostyngiad actwaraidd a wneir i fuddion gohiriedig a delir yn gynnar o dan Reoliad 30. | 30(5)* | Ystyried pob cais gan roi cyfrif am bob mater ariannol a phopeth sy'n ymwneud â darpariaeth y gwasanaethau |
| A ddylid caniatáu cais i dalu pensiwn salwch haen 3 ataliedig yn gynnar yn 55 oed neu wedi hynny a chyn 60 oed. | 30A(3)* | Ystyried pob cais gan roi cyfrif am bob mater ariannol a phopeth sy'n ymwneud â darpariaeth y gwasanaethau |
| A ddylid hepgor, am resymau tosturiol, y gostyngiad actwaraidd a wneir i fuddion a delir yn gynnar o dan Reoliad 30. | 30A(5)* | Ystyried pob cais gan roi cyfrif am bob mater ariannol a phopeth sy'n ymwneud â darpariaeth y gwasanaethau |

## Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997 (fel y'u diwygiwyd)

| Disgresiwn | Rheoliad | Polisi |
|---|---|---|
| Caniatáu cais gan rywun sy'n ymadael ar ôl 31.3.98. / cyn 1.4.08 neu gan Gynghorydd i dalu buddion yn gynnar yn 50/55 oed neu wedi hynny a chyn ei 60. | 31(2)* | Ystyried pob cais gan roi cyfrif am bob mater ariannol a phopeth sy'n ymwneud â darpariaeth y gwasanaethau |
| Hepgor, am resymau tosturiol, y gostyngiad actwaraidd a wneir i fuddion a delir yn gynnar i rywun sy'n ymadael neu gynghorydd sy'n ymadael ar ôl 31.3.98. / cyn 1.4.08. | 31(5)* | Ystyried pob cais gan roi cyfrif am bob mater ariannol a phopeth sy'n ymwneud â darpariaeth y gwasanaethau |
| Ni chaiff y Cynghorwyr a optiodd allan a'r staff a optiodd allan cyn 1.4.08 fuddion wedi'u talu o'r dyddiad ymddeol normal oni fydd y cyflogwr yn cytuno. | 31(7A)* | Ystyried pob cais gan roi cyfrif am bob mater ariannol a phopeth sy'n ymwneud â darpariaeth y gwasanaethau |

## Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal yn ôl Disgresiwn) (Cymru a Lloegr) 2006 (fel y'u diwygiwyd)

O dan Reoliad 7 y Rheoliadau Iawndal yn ôl Disgresiwn, rhaid i bob Awdurdod (heblaw am Gorff Derbyniedig) lunio a chadw o dan adolygiad bolisi sy'n berthnasol o ran gweithredu'r disgresiwn sydd ganddynt parthed yr isod:

| Disgresiwn | Rheoliad | Polisi |
|---|---|---|
| Seilio taliadau colli gwaith/diswyddo ar y cyflog wythnosol gwirioneddol lle bo hyn yn fwy na therfyn cyflog yr wythnosau statudol. | 5 | Talu taliadau colli gwaith/diswyddo/iawndal ar sail y cyflog gwirioneddol |
| Rhoddi iawndal ar ffurf cyfandaliad hyd at gyflog 104 o wythnosau mewn achosion o golli gwaith/diswyddo, terfynu cyflogaeth ar sail effeithlonrwydd neu ddiweddu penodiad ar y cyd. | 6 | **Colli Gwaith**<br>Rhyddhau'r buddion pensiwn yn 55 oed ar ddyddiad terfynu cyflogaeth gan gynyddu wythnosau statudol y diswyddiad gan 1.5 (h.y. uchafswm o 45 wythnos)<br>Mae iawndal o'r fath i gynnwys gwerthoedd y tal colli gwaith statudol.<br>Byddai'r unigolion yn medru dewis trosi'r gwahaniaeth sydd rhwng y taliadau colli gwaith statudol a'r union iawndal a roddir i brynu pensiwn ychwanegol drwy gyfrwng ffactorau y darperir gan Adran Actwari'r Llywodraeth.<br><br>**Terfynu er Effeithlonrwydd**<br>Ni chaiff y buddion pensiwn eu rhyddhau oni fydd y person yn 55 oed erbyn y dyddiad terfynu. |

| | | |
|---|---|---|
| | | **Diswyddo**<br>Lle bo cytundeb ar y naill ochr a'r llall i ryddhau unigolyn o dan Gynllun Diswyddo'r Cyngor, bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r disgresiwn sydd ganddo o dan Reoliad 5 i roddi taliadau iawndal ar sail y cyflog gwirioneddol. Bydd y taliadau diswyddo yn ôl disgresiwn yn seiliedig ar ganllaw cyflym colli gwaith statudol a bydd nifer yr wythnosau y bydd hawl iddynt wedi eu seilio ar oedran a Gwasanaeth. Bydd lluosydd o 1.5 ar waith a bydd uchafswm o 45 o wythnosau. Mae'r taliad diswyddo gwirfoddol yn cynnwys y taliad colli gwaith statudol. Os yw rhywun wedi cyrraedd ei 55 oed, rhyddheir buddion pensiwn iddynt heb eu lleihau a fydd wedi cronni hyd at ddyddiad y terfyniad. Mae'n rhaid wrth wasanaeth cymwys parhaus o ddwy flynedd er mwyn cael mynediad at y trefniadau iawndal hyn. |
| Rhoddi blynyddoedd iawndal ychwanegol i rywun 50 oed neu hŷn sydd ag aelodaeth (neu aelodaeth dybiannol) ers 5 mlynedd neu fwy o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mewn achosion o golli gwaith, terfynu cyflogaeth er effeithlonrwydd, neu ddiweddu penodiad ar y cyd a ddigwyddodd ar ôl 30 Medi 2006 a chyn 1 Ebrill 2007 (ond dim ond os gychwynnodd y cyfnod gwaith cyn 1 Hydref 2006) | 11(2) | Peidio â gweithredu'r disgresiwn hwn |